



Mr D G Evans
2 Y Bryn
Greenfield Road
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1EP

Ein Cyf: qA1163538
Eich Cyf:

Dyddiad: 19 Tachwedd 2015

Annwyl Mr Evans,

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984, ADRAN 1

RHEOLIADAU GORCHMYNION TRAFFIG (GWEITHDREFN) (CYMRU A LLOEGR) YR YSGRIFENNYDD GWLADOL 1990

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (WERN FECHAN, RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS) 201-

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Mae'r swyddogaethau mewn perthynas â Gorchmynion Traffig Ffyrdd wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno. Mae'r penderfyniad yn rhan o gyfrifoldeb Edwina Hart MBE, CStJ, AM, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru. Mae'r llythyr hwn yn cyfleu penderfyniad y Gweinidog.

CEFNDIR

2. Gwneir y cynigion hyn fel ymateb i bryderon a godwyd gan Gyngor Tref Rhuthun, a byddant yn estyn y gwaharddiad presennol ar barcio ar y gefnffordd, er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd a hwyluso llif esmwyth y traffig, drwy liniaru'r tagfeydd a achosir gan broblemau ciwio difrifol o ganlyniad i gerbydau sy'n parcio ar hyd y gerbyttffordd a'r droetffordd. Bydd y Gorchymyn newydd hwn yn cynnwys darpariaethau'r Gorchymyn 1986 presennol, a fydd felly yn cael ei ddirymu.

3. Cyhoeddwyd y Gorchymyn drafft ar 29 Ionawr 2015, ac yn unol â Rheoliadau Gorchmynion Traffig (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) yr Ysgrifennydd Gwladol roedd y Gorchymyn drafft yn caniatáu 21 diwrnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau.

GWRTHWYNEBIAD AC YMATEB



4. Un llythyr yn gwrthwynebu a ddaeth i law gan aelod o'r cyhoedd. Crynhoir prif bwytiau'r gwrthwynebiad ac ymateb Llywodraeth Cymru yn y tabl isod.

Mater a godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Bydd tynnu ymaith y mannau aros ar Wern Fechan yn peri i gerbydau yrru'n gyflymach ar hyd y ffordd hon a ddefnyddir gan bobl hyglwyf; a thrwy ychwanegu at broblemau parcio'r preswylwyr mewn mannau cyfagos, bydd yn lleihau diogelwch yn yr ardal hon ymhellach.</p>	<p>Mae parcio ar y stryd wedi bod yn bwnc dadleuol yn y lleoliad hwn byth er pan gyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych gyfyngiadau parcio ar nifer o ffyrdd sirol cyfagos. Digwyddodd cynnydd sylweddol yn nifer y cerbydau sy'n parcio ar hyd y gefnffordd, ac achosodd hynny giwiau traffig rheolaidd; gwaethygir y sefyllfa oherwydd agosrwydd y lleoliad i'r gyffordd ac i'r ysgol.</p> <p>O ganlyniad, mae rhai gyrwyr yn torri ar draws drwy ystad tai preswyl Haulfryn, nad yw'n addas ar gyfer traffig cefnffordd.</p> <p>Mae data am wrthdrawiadau, a gasglwyd cyn gosod y cyfyngiadau parcio ar y rhwydwaith sirol, yn dangos nad oes hanes o wrthdrawiadau â Defnyddwyr Ffyrdd Hyglwyf yn y lleoliad hwn.</p>
<p>Mae Wern Fechan yn llwybr prysur ar gyfer cerddwyr i ysgolion Stryd y Rhos a Phen Barras ac yn cysylltu ag ardaloedd preswyl.</p>	<p>Peryglir diogelwch y briffordd gan fod rhai cerbydau yn parcio ar draws y troetffyrdd, gan achosi i gerddwyr â chadeiriau gwthio gerdded yn y gerbyttffordd. Cafwyd cwynion hefyd gan bersonau yr oedd cerbydau wedi eu parcio ar draws eu mynedfeydd preifat.</p>
<p>Mae'r trefniadau parcio presennol yn helpu i leihau cyflymder y traffig; rwy'n sylwi yn ddyddiol ar wahaniaeth yng nghyflymder y traffig ar adegau pan nad oes cerbydau wedi eu parcio.</p> <p>Gofynnwyd am wybodaeth gyffredinol am yr arolygon ciwio a chyflymder y cyfeiriwyd atynt.</p>	<p>Er na chofnodwyd unrhyw ddata ad derfynau cyflymder, roedd ymarferiad 'gyrru trwodd' ym mis Tachwedd 2011, a gynhaliwyd fel rhan o adolygiad terfynau cyflymder diweddar (cyn cyflwyno cyfyngiadau parcio ar y rhwydwaith ffyrdd sirol), yn dynodi cyflymder cymedrig o 30-32 mya. Ni ddaeth unrhyw gŵyn i law ynghylch cyflymer gormodol yn y cyfnod pan nad oedd cynifer o gerbydau yn parcio yn y lleoliad hwn.</p> <p>Yn ystod llifoedd brig, gwelir cerbydau yn ciwio o amgylch y tro a thu hwnt i Ysgol Stryd y Rhos, a gall hynny amharu ar y gallu i weithredu'r groesfan ysgol yn ddiogel.</p> <p>Os cyflwynir y cyfyngiadau, bydd modd eu monitro, yn ogystal â chyflymder y cerbydau, er mwyn cael sicrwydd a oes problem ai peidio gyda chyflymder traffig yn y lleoliad hwn.</p>
<p>Mae angen darpariaeth ar gyfer parcio ar y stryd.</p>	<p>Gallai lleihau hyd y cyfyngiadau parcio i'r gorllewin o Wern Fechan achosi i gerbydau barcio am bellter hwy, a hwyrach rwystro mynediad i ffyrdd mynediad preifat. Mae lleoedd parcio amgen ar gael mewn maes parcio arhosiad hir yn union gyfagos i'r darn hwn o'r A494, a gellir cael disgownt ar drwyddedau parcio gan y Cyngor.</p>

Gallai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r awdurdod lleol i gau'r llwybr ar gyfer traffig trwodd, gyda chyfyngiadau tebyg i'r rheini ym Mharc y Dre.	Dylai'r broblem a achosir gan gerbydau sy'n torri ar draws ystad Haulfryn gael ei lliniaru os cyflawnir y Gorchymyn arfaethedig.
---	--

5. Ymatebodd swyddogion i bwyntiau'r gwrthwynebiad fel y nodir uchod, a gwahoddwyd y gwrthwynebydd i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl, ond nid atebodd.

YSTYRIAETH A PHENDERFYNIAD Y GWEINIDOG

6. Mae'r Gweinidog yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynlluniau sy'n amcanu i wella diogelwch y ffyrdd. Bu'n ystyried y gwrthwynebiad ac ymatebion ei swyddogion iddo, a chan gymryd yr holl faterion a godwyd i ystyriaeth, a chyda chefnogaeth lawn Cyngor Tref Rhuthun, mae hi o'r farn y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn gwella diogelwch y ffordd a diogelwch cerddwyr ac yn hwyluso llif esmwyth y traffig.

7. Mae'r Gweinidog yn nodi hefyd fod y Gorchymyn yn cael cefnogaeth lawn Cyngor Tref Rhuthun. O ganlyniad, mae'r Gweinidog wedi penderfynu gwneud y Gorchymyn fel y'i hysbysebwyd.

8. Wrth wneud hynn, mae'r Gweinidog wedi nodi'r pryderon ynghylch cynnydd posibl yng nghyflymder y traffig, ac ar ôl cyflawni'r Gorchymyn bydd cyflymder y cerbydau yn cael ei fonitro.

GWNEUD Y GORCHYMYN

9. Bydd y Gorchymyn, fel y'i gwnaed, yn dod yn weithredol ar ddyddiad sydd i'w gytuno gan Weinidogion Cymru a'r Asiant Cefnffyrdd.

YR HAWL I HERIO

10. O fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad y'i gwnaed, caiff unrhyw un a dramgwyddir gan y Gorchymyn wneud cais i'r Uchel Lys i herio'r Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn y pwerau perthnasol yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984,
- neu b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o'r gofynion perthnasol mewn perthynas â'r Gorchymyn

Yr eiddoch yn gywir,

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Is-adran Rheoli,
Trafnidiaeth